



To: Heads of Planning

11/11/19

Annwyl Gydweithiwr

Statws Cyfreithiol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) ym mis Medi 2020. Pan fydd wedi'i gyhoeddi bydd y FfDC yn disodli Cynllun Gofodol Cymru a bydd ganddo'r un grym cyfreithiol llawn â chynllun datblygu mabwysiedig.

Mae cyhoeddi'r FfDC Drafft yn garreg filltir bwysig ac mae'n amlinellu am y tro cyntaf bolisi cynllunio gofodol Llywodraeth Cymru fel cynllun datblygu. Mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) yn ystyried y canlyniadau, y strategaeth ofodol a'r polisïau a nodir yn y FfDC Drafft. Er nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i CDLlau gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC tan iddo gael ei gyhoeddi, bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dymuno ystyried sut y bydd y CDLlau datblygol yn cydweddu â'r FfDC Drafft.

Ni ddylai'r gwaith ystyried hwn achosi unrhyw oedi i baratoi neu archwilio cynllun ac ni ddylai fod yn rhy feichus. Mae'r FfDC a'r CDLlau yn cael eu paratoi yng nghyd-destun Polisi Cynllunio Cymru 10 a dylent rannu rhai nodau ac amcanion cyffredin eisoes. Pe bai enghraifft o gyfeiriad gwahanol sylweddol rhwng y FfDC a CDLI unigol, bydd hwn yn fater i Arolygwyr ei ystyried wrth gynnal gwaith archwilio.

Bydd y FfDC yn rhan o'r cynllun datblygu ar gyfer eich ardal pan fydd yn cael ei gyhoeddi. Pan fydd cynigion datblygu, apelau cynllunio a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cael eu rhagweld ac y gallent gael eu penderfynu ar ôl cyhoeddi'r FfDC, dylech gynghori datblygwyr a rhanddeiliaid o'r posibilrwydd o benderfynu yn erbyn polisïau FfDC a'r CDLI. Dylech edrych ar y FfDC Drafft ac ystyried yr hyn y gallai ei bolisïau drafft olygu ar gyfer y cynigion hyn. Byddant yn cynorthwyo Arolygwyr wrth ystyried cynigion a gyflwynwyd cyn

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Welsh Government Offices
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre
0300 0604400

cyhoeddi'r FfDC ond mae'n debygol y bydd y penderfyniad yn cael ei wneud arnynt ar ôl ei gyhoeddi.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar y FfDC Drafft ar 7 Awst a bydd yn parhau tan 15 Tachwedd 2019. Rwy'n annog pawb i ymateb. Cysylltwch â mi'n uniongyrchol os hoffech drafod unrhyw agwedd ar y FfDC ymhellach.

Yn gywir

A handwritten signature in dark ink, appearing to read 'N. Hemington'.

Neil Hemington
Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Chief Planner, Planning Directorate